



Strategaeth Rhaglen

Cymorth Tai

2022-26

Cyngor Bwrdeistref Sirol

Rhondda Cynon Taf

Cynnwys

1 Rhagair

2 Diben y Strategaeth

3 Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi

4 Gweledigaeth ac Egwyddorion

5 Datganiad o Angen

6 Blaenoriaethau Strategol

7 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

8 Aseidiadau Effaith

9 Gweithredu, Monitro ac Adolygu'r Strategaeth

Atodiad A: Cynllun Gweithredu

Atodiad B: Tirwedd y Polisiâu Cenedlaethol

1 Rhagair



Mae'n bleser gen i gyflwyno Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf 2022-2026.

Mae'r Strategaeth yn adeiladu ar yr ymdrechion presennol a'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan yr Awdurdod Lleol, ei randdeiliaid a phartneriaid allweddol i edrych ymlaen a datblygu cartrefi ac atebion i fodloni'r galw presennol ac yn y dyfodol ac atal digartrefedd.

Mae yna hefyd gydnabyddiaeth glir o'r agwedd 'pawb i mewn a neb yn cael ei adael allan' a llawer o ystyriaeth i sicrhau bod yr atebion yn diwallu anghenion ein cymunedau, sy'n aml yn amlochrog ac amrywiol eu natur, trwy ehangu'r ystod o lety i roi dyfodol mwy disglair a chynaliadwy i bobl, ac i sicrhau os does dim modd atal digartrefedd, ei fod am gyfnod byr yn unig a'i fod ddim yn digwydd eto.

Rydyn ni'n croesawu'r dull ailgartrefu cyflym o fynd i'r afael â digartrefedd a'r cymorth a'r canllawiau ariannol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn ein helpu i gyflymu llawer o'n rhaglen ddatblygu i gynyddu'r broses o greu cartrefi fforddiadwy, carbon isel o safon yn gyflym ac ar raddfa fawr er mwyn gweithio i ddiwallu anghenion ein cymuned yn well.

Er bod hyn yn paratoi'r ffordd ar gyfer atebion arloesol, ataliaeth well ac ymatebion cyflym i ddigartrefedd, rydyn ni hefyd yn cydnabod yr her sylweddol sydd o'n blaenau.

Gyda lefelau uchel eisoes o amddifadedd yn lleol, pwysau oherwydd costau byw cynyddol, rhenti'r farchnad a'r her sylweddol o ran cynllunio ymadael o'r defnydd gormodol o lety dros dro, mae maint yr her yn sylweddol, ond ynghyd â'n partneriaid rydyn ni wedi ymrwymo i helpu'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymuned.

Y Cyngorydd Rhys Lewis

Aelod o'r Cabinet ar faterion Newid yn yr Hinsawdd a Chymunedau

2 Diben y Strategaeth

Mae'r Strategaeth yma'n nodi'r dull y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn ei ddefnyddio i barhau i gefnogi ein preswylwyr mwyaf agored i niwed - y rhai sy'n wynebu risg o ddigartrefedd, neu sy'n ddigartref a'r rhai sydd angen cymorth i gynnal eu tenantiaethau a byw'n rhan o'u cymunedau. Ers pandemig Covid-19 rydyn ni wedi cynyddu'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i sicrhau bod pawb sydd angen lloches yn cael llety ac yn gallu derbyn cefnogaeth. Mae llawer mwy y mae angen inni ei wneud i atal digartrefedd a darparu'r ystod a maint y llety sydd ei angen i ateb y galw. Rydyn ni eisoes wedi gwneud cynnydd yn y ffordd rydyn ni'n helpu pobl pan fyddan nhw'n cysylltu â ni am y tro cyntaf am gymorth gyda thai, y mathau o gymorth rydyn ni'n eu cynnig i bobl ifainc, yn enwedig y rhai sy'n gadael gofal, a'n gwaith gyda Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg o ran y cymorth rydyn ni'n ei roi i bobl â heriau o ran iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Mae'r cyfnod yma'n parhau i fod yn heriol ac rydyn ni'n cydnabod bod angen i ni fod yn barod ar gyfer niferoedd cynyddol o bobl y bydd angen cymorth arnyn nhw gyda thai, ag anghenion cynyddol gymhleth, a bydd y strategaeth yma'n ein helpu i ymateb i'r twf yma yn y galw.

Mae'r ddogfen yma'n cynnwys blaenoriaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol RhCT a'n hasiantaethau partner ar gyfer atal digartrefedd, cymorth i'r digartref a gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai dros y 4 blynedd nesaf (2022-26). Mae'n adnewyddu blaenoriaethau cynharach a gafodd eu cynnwys yn hen Strategaeth Digartrefedd y Cyngor, a Chynllun Cyflawni'r Grant Cymorth Tai ar gyfer 2021-22. Cafodd datblygiad y blaenoriaethau ei lywio gan ymarfer asesu angen cynhwysfawr a oedd yn cynnwys ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid yn y Cyngor, rhanddeiliaid allanol megis y GIG a'r Gwasanaeth Prawf yn ogystal â darparwyr gwasanaethau cymorth a defnyddwyr gwasanaethau.

Mae'r Grant Cymorth Tai yn elfen allweddol o'r strategaeth gyffredinol. Rhaglen grant ymyrraeth gynnar yw hon i gefnogi gweithgarwch sy'n atal pobl rhag dod yn ddigartref, yn sefydlogi eu sefyllfa o ran llety neu'n helpu pobl a allai fod yn ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw. Mae'r grant wedi'i gynllunio i ychwanegu at, ategu a chefnogi gwasanaethau statudol, gan felly sicrhau bod y cynnig lleol cyffredinol yn helpu pobl i mewn i'r cartrefi cywir, gyda'r cymorth cywir i lwyddo. Mae'n gwneud cyfraniad sylweddol at weithredu Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 sy'n canolbwyntio ar atal digartrefedd. Dylai gwasanaethau sy'n cael eu cefnogi drwy'r Grant Cymorth Tai ganolbwyntio ar yr unigolyn a mynd i'r afael â phroblemau lluosog y mae pobl sy'n agored i niwed neu sy'n debygol o ddod yn ddigartref yn eu hwynebu'n aml (er enghraifft dyled, cyflogaeth, camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a rhywiol a phroblemau iechyd meddwl). Yn y pen draw,

dylai'r gwasanaethau leihau'r angen am ymyrraeth gostus yn y meysydd yma gan wasanaethau cyhoeddus eraill.

Mae cynllunio strategol yn allweddol i sicrhau aliniad rhwng dyletswyddau statudol y Grant Cymorth Tai a RhCT i atal a lleddfu digartrefedd a chomisiynu gwasanaethau'r Grant yn effeithiol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod digartrefedd yn cael ei atal a bod pobl sydd angen gwasanaethau yn cael y cymorth priodol. Bydd hyn hefyd yn helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio'r grant. Mae angen un strategaeth ar Lywodraeth Cymru sy'n ymgorffori atal digartrefedd a chymorth i'r digartref yn RhCT ac sy'n cwmpasu'r ddyletswydd digartrefedd statudol a ariennir drwy'r setliad refeniw a gwasanaethau ataliol anstatudol a ariennir drwy'r Grant. Mae'r strategaeth yn cydnabod y gyddibyniaeth rhwng yr elfennau yma ac yn ehangach gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill sy'n darparu cymorth i bobl agored i niwed.

3 Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi

Mae'r strategaeth yma'n ymgorffori gweledigaeth ehangach y Cyngor ac mae'n cyd-fynd â'n cynlluniau corfforaethol ehangach i sicrhau bod y Rhaglen Cymorth Tai yn ein cefnogi i gyflawni ein huchelgeisiau cyffredinol ar gyfer RhCT, yn enwedig drwy ein Cynllun Corfforaethol. Mae hybu annibyniaeth drwy wasanaethau gwybodaeth a chynngor a chymorth ac ehangu'r dewis o dai sydd ar gael i'r rhai mwyaf agored i niwed yn themâu cyffredin ar draws portffolio polisi'r Cyngor sy'n berthnasol i ddigartrefedd a chymorth tai. Mae achosion digartrefedd a'r atebion iddo yn gymhleth, ac mae nifer o'n meysydd polisi corfforaethol a fydd, drwy weithio ar y cyd, yn ein helpu i gyflawni'r strategaeth yma.

Cynllun Corfforaethol

Mae ein Cynllun Corfforaethol, [Gwneud Gwahaniaeth](#), yn nodi ein blaenoriaethau ac yn llywio'r hyn rydyn ni'n ei wneud. Ein gweledigaeth yw gwneud Rhondda Cynon Taf

“y lle gorau yng Nghymru i fyw, gweithio a chwarae, lle mae pobl a busnesau yn annibynnol, yn iach ac yn llewyrchus.”

Rydyn ni wedi ymrwymo i gyflawni tair prif flaenoriaeth:

- Sicrhau bod Pobl: yn annibynnol, yn iach ac yn llwyddiannus;
- Creu Lleoedd y mae pobl yn falch o gael byw, gweithio a chwarae ynddyn nhw;
- Galluogi Ffyniant: creu'r cyfle i bobl a busnesau fod yn arloesol, yn entrepreneuriaidd, cyflawni eu potensial a ffynnu.

Mae ein Carfan Strategaeth Dai, sy'n rhan allweddol o gyflawni'r cynllun yma ar hyn o bryd yn cynnal [Asesiad o'r Farchnad Dai Leol](#). Bydd yr anghenion a nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn

cwmpasu rhai o'r meysydd angen yr ymdrinnir â hwy yn Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai a bydd hyn yn ein galluogi i ddarparu llety o bob math o ddeiliadaeth gan gynnwys darpariaeth tai â chymorth.

'Fy Nhrothwy Fy Hun' - Cynllun ar gyfer tai yn hwyrach mewn bywyd 2016

Rydyn ni wedi paratoi Cynllun Tai ar gyfer Pobl Hŷn yn benodol oherwydd ein bod ni'n cydnabod bod y materion a'r mathau o ddarpariaeth sydd eu hangen yn benodol iawn iddyn nhw. Ar ben hynny, mae bylchau yn y ddarpariaeth bresennol, er enghraifft, mae gormodedd o dai lloches traddodiadol mewn rhai ardaloedd yn y Fwrdeistref.

Ein gweledigaeth yw caiff "pobl yn hwyrach mewn bywyd fyw'n annibynnol mewn cartref o'u dewis am gyhyd ag y bo modd". Er mwyn gwireddu'r weledigaeth yma, mae tri nod strategol wedi cael eu nodi.

- **Amcan Strategol 1: Sicrhau cymorth pwrpasol ac ataliol er mwyn atal nifer yr achosion anghenion dybryd rhag cynyddu.**
- **Amcan Strategol 2: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth sy'n hawdd eu cyrraedd.**
- **Amcan Strategol 3: Darparu amrywiaeth dda o dai da sy'n hyrwyddo annibyniaeth, iechyd a lles hirfaith.**

Strategaeth Llety a Chymorth i Bobl Ifainc 16 oed neu'n hŷn sy'n Gadael Gofal 2019-2022

Mae datganiad o fwriad rhanbarthol a rennir Cwm Taf ar gyfer rhoi cymorth i blant, pobl ifainc a theuluoedd yn nodi gweledigaeth a rennir bod plant, pobl ifainc a theuluoedd Cwm Taf yn byw bywydau diogel, iach a chyflawn ac mae modd iddyn nhw gyflawni eu potensial llawn drwy adeiladu cymunedau cydnerth. Mae'r strategaeth yma'n cefnogi Blaenoriaeth 3 Cynllun Darparu Gwasanaethau i Blant RhCT 2019-20 i sicrhau bod plant sydd ddim yn gallu byw gyda'u rhieni yn byw mewn llety addas yn RhCT. Mae hyn yn cael ei weithredu trwy Banel Sicrhau Ansawdd Plant sy'n Derbyn Gofal i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal yn RhCT yn mynd i leoliadau o ansawdd da sy'n eu cynorthwyo i fyw bywydau diogel, iach a chyflawn. Un o brif amcanion y Panel yw comisiynu ystod o leoliadau sy'n rhoi cymorth i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal i ddatblygu'r sgiliau sy'n eu galluogi i symud at annibyniaeth lawn. Mae'r tri nod strategol yn adlewyrchu'r rhai uchod mewn perthynas â phobl hŷn.

- **Amcan Strategol 1: Sicrhau cymorth pwrpasol ac ataliol er mwyn atal nifer yr achosion o anghenion dybryd rhag cynyddu.**

- **Amcan Strategol 2: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth sy'n hawdd eu cyrraedd.**
- **Amcan Strategol 3: Darparu amrywiaeth dda o dai da sy'n hyrwyddo annibyniaeth, iechyd a lles hirfaith.**

Y Cyd-destun Cenedlaethol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ffocws cyson ar fynd i'r afael â digartrefedd yng nghyd-destun effaith hirdymor polisi Llywodraeth y DU, mewn perthynas â chynni ariannol a chymorth lles, a meysydd polisi eraill sydd ddim wedi'u datganoli sy'n effeithio ar ddigartrefedd megis gwaith yr Heddlu a Charchardai. O dan Ran 2 o **Ddeddf Tai (Cymru) 2014**, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd newydd a mwy cadarn i atal a lleddfu digartrefedd sydd wedi arwain at gryfhau trefniadau partneriaeth lleol.

Mae'r egwyddor arweiniol yn parhau i fod yn un o atal digartrefedd, ond lle dydy hyn ddim yn bosibl, sicrhau fod unrhyw ddigartrefedd am gyfnod byr yn unig a'i fod ddim yn digwydd eto. Mae ymrwymiad o'r newydd i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol i ganolbwyntio ar atal digartrefedd ac ailgartrefu cyflym. Bydd deall beth sy'n gweithio, beth sy'n addawol, a beth sydd ddim yn effeithiol yn hanfodol i Lywodraeth Cymru wrth iddi gyflawni ei nodau polisi.

Yn eu tro, mae sawl egwyddor allweddol yn sail i ddull Llywodraeth Cymru o atal digartrefedd, a dylai'r rhain gael eu hymgorffori ar draws gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau a gomisiynir. Dyma nhw:

- Mae'r camau atal cynharaf yn fwyaf effeithiol a mwyaf cost effeithiol a dylen nhw fod yn ymyriadau o ddewis cyntaf bob amser.
- Mae mynd i'r afael â digartrefedd a'i atal yn fater i wasanaethau cyhoeddus yn hytrach na 'mater i'r adran dai'.
- Dylai pob gwasanaeth ganolbwyntio ar yr unigolyn a gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd sy'n effro i drawma.
- Dylai'r dyletswyddau yn Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 fod y llinell amddiffyn olaf – nid y gyntaf – a dylai pob gwasanaeth weithio i ysbryd nid llythyren y gyfraith yn unig.
- Dylai polisi, darpariaeth gwasanaethau ac ymarfer gael eu llywio a'u siapio mewn modd cydgyhnhyrchiol a chan y rhai sydd â phrofiad bywyd.

Mae polisi ac arferion tai a digartrefedd wedi parhau i esblygu yn y cyfnod ers i'r Ddeddf Tai ddod i rym, a gall y Cyngor ddisgwyl bod angen ymateb ymhellach i'r camau sy'n cael eu cymryd ar lefel genedlaethol i gefnogi awdurdodau lleol gyda'u heriau mewn perthynas â thai. Yn fwyaf diweddar,

mae hyn yn cynnwys ymrwymiadau a wnaed yn [Rhaglen Lywodraethu](#) Llywodraeth Cymru (2021). Mae hyn yn amlinellu ymrwymiadau allweddol i ddeddfu mewn perthynas â digartrefedd a phobl ifainc sydd â phrofiad o dderbyn gofal. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i:

- Archwilio diwygiadau radical i wasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal.
- Diwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol i ganolbwyntio ar atal digartrefedd ac ailgartrefu cyflym.
- Cefnogi datblygiadau tai arloesol i ddiwallu anghenion gofal.
- Gwella cydweithio ar draws tai a gwasanaethau cymdeithasol, gan ddefnyddio cyfrifoldebau rhianta corfforaethol.

Mae ymrwymiadau ychwanegol sydd wedi'u hymgorffori yn y Rhaglen Lywodraethu yng [Nghytundeb Cydweithio Llafur/Plaid Cymru \(Tachwedd 2021\)](#) yn cynnwys:

- Cymryd camau uniongyrchol a radical i fynd i'r afael â'r doreth o ail gartrefi a thai anfforddiadwy, gan ddefnyddio'r systemau cynllunio, eiddo a threthiant.
- Sefydlu Unnos, cwmni adeiladu cenedlaethol, i gefnogi cynghorau a landlordiaid cymdeithasol i wella'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy.
- Cyhoeddi Papur Gwyn i gynnwys cynigion ar gyfer hawl i dai digonol, y rôl y gallai system o renti teg (rheoli rhenti) ei chwarae o ran gwneud y farchnad rhentu preifat yn fforddiadwy i bobl leol ar incwm isel a dulliau newydd o wneud cartrefi'n fforddiadwy.
- Dod â digartrefedd i ben drwy ddiwygio'r gyfraith tai, deddfu [Deddf Rhentu Cartrefi \(Cymru\) 2016](#) i roi rhagor o sicrwydd i denantiaid a gweithredu argymhellion a gyhoeddwyd i Lywodraeth Cymru gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd yn 2020 mewn perthynas ag ymagwedd gyfannol at y mater yma.

Bydd gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2022 yn dod â newidiadau sylweddol, gan gryfhau hawliau ac amddiffyniadau i denantiaid gan gynnwys:

- Disodli tenantiaethau a thrwyddedau cyfredol, gan gynnwys tenantiaethau byrddaliad sicr a chontractau meddiannaeth sicr (a gyhoeddir yn gyffredinol gan landlordiaid cymunedol – awdurdodau lleol a chymdeithasau tai) a chontractau meddiannaeth safonol (a gyhoeddir yn gyffredinol gan landlordiaid preifat).
- Rhagor o ddyletswyddau ar landlordiaid i nodi dyletswyddau priodol y landlord a deiliad y contract (tenant).
- Newid isafswm cyfnod rhybudd ar gyfer terfynu contract pan nad oes unrhyw fai i 6 mis a gofyniad bod o leiaf 6 mis wedi mynd heibio ers dechrau contract cyn i unrhyw hysbysiad o'r fath gael ei roi.

- Mwy o amddiffyniad i ddeiliaid contract rhag cymalau terfynu, na all landlordiaid eu rhoi ond pan fodlonir amodau penodol.
- Gofyniad bod pob eiddo ar rent yn addas i bobl fyw ynddo a bod landlordiaid yn cadw strwythur a thu allan yr eiddo mewn cyflwr da.
- Amddiffyn y tenantiaid sy'n weddill sy'n destun contract ar y cyd pan fydd un deiliad contract yn gadael yr eiddo.
- Gwell hawliau olyniaeth contract ar gyfer rhai grwpiau, gan gynnwys cynhalwyr yn y cartref.

Bydd gan y newidiadau yma oblygiadau i awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill sydd â dyletswyddau i atal a lliniaru digartrefedd, o ran sicrhau bod tenantiaid presennol neu ddeiliaid contract yn cael mwy o amddiffyniad rhag y risg o ddod yn ddigartref, ond hefyd o bosibl o ran argaeledd eiddo addas mewn ardal a'r nifer o landlordiaid preifat sy'n fodlon rhentu.

Mae rhestr lawn o ddatblygiadau polisi cenedlaethol o'r fath sydd wedi dylanwadu ar y Strategaeth yma wedi'u cynnwys yn [Atodiad B](#).

Mae dull aml-asiantaeth, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, o fynd i'r afael â digartrefedd yn gofyn am gyfraniad gan wasanaethau eraill, ac aliniad â nhw. Mae'r meysydd gwasanaeth yma'n destun deddfwriaeth a pholisi penodol, i gyd yn cyfuno'n fras ag egwyddorion atal/ymyrraeth gynnar, cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, hybu annibyniaeth a darparu atebion cynaliadwy. Mae meysydd pwysig o ddeddfwriaeth a pholisi perthnasol wedi'u nodi isod.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf yn ceisio cryfhau trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer gwella lles cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru er mwyn sicrhau bod anghenion cenedlaethau'r presennol yn cael eu bodloni heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni'u hanghenion nhw. Mae angen i'r cyrff cyhoeddus, sydd wedi'u rhestru yn y ddeddf, ystyried y tymor hir, gweithio gyda phobl, cymunedau a'i gilydd yn well, rhwystro problemau a mabwysiadu dull sy'n fwy cydweithredol.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer gwella deilliannau lles i bobl sydd angen gofal a chymorth, a chynhalwyr sydd angen cymorth a chydgyssylltu a phartneriaeth gan awdurdodau cyhoeddus gyda'r nod o wella lles pobl. Mae'r Ddeddf yn cydnabod yr angen am ragor o wasanaethau ymyrraeth gynnar a chymorth dwys cynhwysfawr. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal a gwella lles pobl mewn angen mewn meysydd fel addysg, hyfforddiant a hamdden, lles cymdeithasol ac economaidd a lles corfforol, meddyliol ac emosiynol.

Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref, a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Nod y Ddeddf yma yw gwella ymateb y sector cyhoeddus yng Nghymru i gam-drin a thrais drwy wella trefniadau i hybu ymwybyddiaeth o drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac i atal, amddiffyn a chefnogi dioddefwyr. Mae dioddefwyr cam-drin a thrais o'r fath yn grŵp cleient pwysig ar gyfer gwasanaethau tai. Mae'r Ddeddf yn pwysleisio'r ffocws ar ddulliau atal a gweithio mewn partneriaeth wrth weithio gyda dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Cynllun cyflawni ar gyfer camddefnyddio sylweddau: 2019 tan 2022 (Cymru)




Mae hyn yn nodi blaenoriaethau polisi a gweithredol allweddol Llywodraeth Cymru ac mae wedi cael ei adolygu i ystyried lle mae angen ei ddiweddarau yng ngoleuni COVID-19. Mae'r adolygiad yn nodi meysydd blaenoriaeth sy'n cynnwys ymateb i broblemau iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd ac sy'n gyffredin ym maes camddefnyddio sylweddau, gan sicrhau gwaith partneriaeth cryf gyda gwasanaethau tai a digartrefedd i roi cymorth pellach i'r rhai â phroblemau camddefnyddio sylweddau sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref a gwella mynediad at wasanaethau a sicrhau bod pobl yn cael y cymorth a'r driniaeth pan fydd eu hangen arnyn nhw.

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r Ddeddf yma'n cwmpasu'r DU gyfan ac yn darparu amddiffyniad i bobl sy'n cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn oherwydd y canfyddir bod ganddyn nhw nodwedd warchoddedig, neu eu bod nhw'n gysylltiedig â rhywun sydd â nodwedd warchoddedig. Mae amddiffyniad yn berthnasol i ddarpariaeth gwasanaethau a swyddogaethau cyhoeddus. Yn ogystal, cyflwynwyd Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol newydd yng Nghymru yn 2020 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, wrth wneud penderfyniadau strategol megis penderfynu ar flaenoriaethau a phennu amcanion, ystyried sut y gallai eu penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

Atal digartrefedd ymhlith pobl ifainc

Mae Llywodraeth Cymru, yn ei Rhaglen Lywodraethu, yn amlinellu ymrwymïadau allweddol i ddeddfu yn unol â'r argymhellion allweddol yn y dogfennau isod mewn perthynas â digartrefedd a phobl ifainc sydd â phrofiad o dderbyn gofal. Mae ein Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai yn ystyried argymhellion allweddol sy'n cynnwys gwella cydweithio rhwng yr adran dai a gwasanaethau gymdeithasol, a chryfhau cyfrifoldebau rhianta corfforaethol.



4 Gweledigaeth ac Egwyddorion

Mae ein gweledigaeth ar gyfer atal digartrefedd, lliniaru digartrefedd a gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r weledigaeth a nodir yn ein Cynllun Corfforaethol, a'i dair egwyddor sylfaenol. Dyma'r **weledigaeth**:

'Mae partneriaid statudol, y trydydd sector a'r sector preifat yn cydweithio'n effeithiol i wneud yn siŵr bod pobl yn Rhondda Cynon Taf yn gallu cael tai addas ac yn gallu aros yn eu cymunedau lleol. Mae'r cymorth cywir ar gael mewn cymunedau lleol, i atal y rhai sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref rhag colli eu cartrefi. Rydyn ni'n ymdrechu i sicrhau llety priodol cyn gynted â phosibl ar gyfer y rhai sydd wedi dod yn ddigartref, ynghyd â'r math cywir o gymorth bersonol, gan eu helpu i ddyfodol diogel a gwneud y gorau o'u lles. Mae Rhondda Cynon Taf yn sir lle caiff digartrefedd ei atal neu lle mae digartrefedd yn brin, yn fyr a ddim yn digwydd am yr ail-dro.'

Mae darparu'r llety cywir a chymorth o ansawdd uchel i bobl sy'n ddigartref neu a allai ddod yn ddigartref yn egwyddorion sy'n rhedeg drwy ein hymagwedd. Byddwn ni'n parhau i ddatblygu ein cynnig, gan adeiladu ar yr hyn rydyn ni eisoes wedi'i sefydlu a'r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu drwy bandemig Covid-19. Byddwn ni'n ymateb i anghenion defnyddwyr ac yn defnyddio technolegau newydd i ddatgloi'r gallu i roi cymorth i bobl mewn ffyrdd newydd ac ymatebol i'w galluogi i gyflawni eu potensial a ffynnu.

5 Datganiad o Angen

Mae'r **Datganiad o Angen**, sydd ar gael fel dogfen ar wahân, yn crynhoi canfyddiadau **Asesiad Anghenion** cynhwysfawr, sydd hefyd ar gael ar wahân. Mae'n nodi'r materion allweddol y mae angen mynd i'r afael â hwy drwy'r strategaeth Rhaglen Cymorth Tai a'r gorchmynion penodol i Gyngor Rhondda Cynon Taf wrth gyflawni ei ddyletswyddau statudol i atal a lliniaru digartrefedd. Cynhaliwyd yr Asesiad Anghenion yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac mae'n cyfuno ystod eang o ddata meintiol â gwybodaeth a gasglwyd drwy ymgysylltu'n helaeth ag amrywiaeth o randdeiliaid. Rhoddir crynodeb isod o ganfyddiadau allweddol yr Asesiad Anghenion.

Trosolwg o Rondda Cynon Taf

Mae RhCT yn cynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Serch hynny, mae'r patrwm o amddifadedd ar draws RhCT yn anwastad ac wedi ei ganoli mewn ardaloedd penodol, i raddau helaeth yng Nghwm Cynon mewn cymunedau fel Penrhiwceiber a Phen-y-waun, ac yng Nghwm Rhondda mewn cymunedau fel Tylorstown a Threherbert.

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith fawr ar nifer y bobl sy'n agored i niwed y mae'r Cyngor bellach yn gyfrifol am eu hatal rhag mynd yn ddigartref, ynghyd â dileu'r 'Gorchymyn Blaenoriaeth' gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau'r pandemig. Mae'r cynnydd mewn anghenion cymhleth yn gofyn am ymateb corfforaethol ac aml-sector gan RCT sydd wedi'i gydlynu'n well.

Bu cynnydd cyflym yn nifer y bobl mewn llety dros dro a gostyngiad mewn argaeledd yn y Sector Rhentu Preifat, sy'n golygu bod pwysau cynyddol i sicrhau llety newydd, yn enwedig llety un ystafell wely. Mae'r pandemig hefyd wedi tynnu sylw at eu hangen i wasanaethau ategol megis Tai, Iechyd a'r Gwasanaeth Prawf gydweithio a rhannu data'n well i roi cymorth gwell i'n trigolion. Isod mae'r meysydd allweddol i'w hystyried yn y strategaeth sydd wedi dod o'n golwg fanwl ar angen yn y Sir.

Deall Angen

Mae'r gwasanaethau Cymorth Tai yn bodoli i helpu i atal digartrefedd, allgáu cymdeithasol, arwahanrwydd a sefydliadu. Fel y nodwyd yn gynharach yn y strategaeth, mae fframwaith cyfreithiol a pholisi Cymru yn glir bod ymyrraeth gynnar yn lleihau achosion o sefyllfaoedd sy'n gwaethygu'n ormodol ac yn osgoi argyfwng, gydag effaith ar ddeilliannau iechyd, cynhwysiant ac annibyniaeth.

Mae'r Asesiad Anghenion yn dangos bod y galw am dai yn uwch na'r cyflenwad, yn enwedig mewn perthynas â llety un ystafell wely, er gwaethaf ymdrechion gorau'r Cyngor i greu opsiynau newydd ar

gyfer llety dros dro, llety â chymorth a chartrefi parhaol. Mae hyn yn rhoi rhagor o frys ar y ddyletswydd i atal a'r angen i roi cymorth i bobl i gadw eu llety presennol. Mae angen eiddo un ystafell wely ar ychydig dros 50% o'r 4720 ymgeisydd presennol (ar adeg ysgrifennu'r strategaeth yma) ar system ceisiadau/dyraniadau tai Ceisio Cartref. Mae mwy na thri chwarter (cyfanswm o 104) o'r rhai sydd â'r flaenoriaeth uchaf ar gyfer tai (Band A) angen eiddo un ystafell wely.

Mae deall gweithgaredd gwasanaethau ategol fel Iechyd, y Gwasanaeth Prawf, ac Addysg a chael gafaél ar yr wybodaeth sydd ganddyn nhw am anghenion pobl yn hanfodol er mwyn cynllunio gwasanaethau'n effeithiol a rhoi cymorth yn gynnar cyn i argyfyngau ddatblygu.

Dywedodd rhanddeiliaid fod ein rhaglen Teuluoedd Cydnerth yn cefnogi'r agenda atal digartrefedd ac mae modd adeiladu arni. Mae'n amlwg bod rhywfaint o drawsgroesiad rhwng agendâu atal y Rhaglen Cymorth Tai a'r Rhaglen Teuluoedd Cydnerth. Byddwn ni'n archwilio ymhellach sut mae'r rhaglenni yma'n ategu ei gilydd yn strategol ac yn weithredol wrth symud ymlaen.

Rhannu Data

Mae'r Asesiad Anghenion yn amlygu canfyddiadau'r Asesiad Poblogaeth, adolygiadau'r Cyngor ac adborth rhanddeiliaid sy'n nodi bod rhannu data a gwybodaeth ddim yn digwydd yn ddigon da ar hyn o bryd. Lle mae sawl asiantaeth yn ymwneud â pherson digartref, dylid gwella trefniadau rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau lleol, yr awdurdod iechyd, y gwasanaeth prawf, tai a phartneriaid trydydd sector, a'u halinio â fframweithiau cenedlaethol cytûn er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol yn well.

Dywedodd rhanddeiliaid fod angen i fentrau atal ac ymyrraeth gynnar ar draws RhCT gael eu halinio'n strategol ac yn weithredol er mwyn gwneud y mwyaf o'r buddion mae modd eu cyflawni drwy'r gwasanaethau yma.

Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau

Ar hyn o bryd, pobl sengl 25+ oed sy'n ffurfio'r gyfran uchaf o bobl ddigartref sy'n gofyn am gymorth gan y Cyngor. Mae gan lawer o'r rhain heriau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd.

Mae'r Asesiad Anghenion yn nodi mai diwallu anghenion pobl â chyflyrau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys lle mae'r ddau yn cyd-ddigwydd, yw'r mater mwyaf arwyddocaol i'r Cyngor a'n partneriaid.

Mae gan RCT y nifer fwyaf o achosion sydd wedi'u hadrodd o gamddefnyddio sylweddau, salwch meddwl a llesiant gwael yng Nghymru. Problemau iechyd meddwl yw'r rheswm mwyaf cyffredin dros gael angen tai â blaenoriaeth yn RhCT ac mae problemau llety yn aml yn rheswm dros orfod mynd i'r ysbyty fel claf mewnol am driniaeth iechyd meddwl. Mae pobl â salwch meddwl yn llawer mwy tebygol o fyw mewn llety wedi'i rentu ac, yn aml, maen nhw'n nodi eu salwch fel prif reswm dros fethiant eu tenantiaeth.

Mae nifer fawr o bobl sydd angen gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd. Mae gwasanaethau cymorth tai yn datgan ei bod hi'n anodd cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a thriniaeth camddefnyddio sylweddau y GIG ar gyfer y bobl yma. Mae gwasanaethau yn delio ag anghenion cynyddol gymhleth ers pandemig COVID-19 ac mae rhagor o bobl ag anghenion cymhleth yn cael eu rhoi mewn llety dros dro. Mae gwasanaethau Cymorth fel y bo Angen, sy'n rhoi cymorth i bobl mewn llety dros dro, hefyd wedi adrodd bod eu hatgyfeiriadau anghenion nhw yn fwy cymhleth.

Mae angen i wasanaethau addasu i ddiwallu'r lefelau uwch yma o angen a risg. Mae gwasanaeth rhanbarthol arbenigol newydd ar gyfer pobl ddigartref sy'n profi anghenion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd bellach yn ei le a bydd angen ei werthuso.

Pobl Ifainc

Mae 18% o'r sawl sydd wedi gofyn am gymorth oherwydd eu bod yn ddigartref ers 2019 yn bobl ifainc o dan 25 oed. Mae llawer o'r bobl ifainc yma â phrofiad o ofal. Mae methiant perthnasoedd gyda theuluoedd yn parhau i fod yn un o'r rhesymau amlwg y mae pobl ifainc yn mynd yn ddigartref yn RhCT. Byddwn ni'n sicrhau bod ein hymagwedd gorfforaethol at gefnogi pobl ifainc yn cael ei chryfhau – gan sicrhau dull strategol 'un RhCT' o atal a gweithgareddau ymyrraeth gynnar wedi'u targedu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r dasg yn ddiweddar i bob Cyngor yng Nghymru, gan gynnwys CBSRhCT, archwilio eu hymateb rhianta corfforaethol mewn perthynas â phlant a phobl ifainc sydd â phrofiad o ofal a'u hanghenion llety yn y dyfodol. Yn benodol, mae'n gofyn i gynghorau ymateb i'r angen am y canlynol:

- Proses adnabod weithredol i sicrhau bod pobl ifainc â phrofiad o ofal sy'n ddigartref yn gallu manteisio ar yr holl gymorth y mae ganddyn nhw hawl iddo, mewn cydweithrediad â'r gwasanaethau i blant.

- Adolygiadau amlasiantaeth i nodi unrhyw fylchau yn y system neu ymyriadau a allai fod wedi digwydd i sicrhau bod achosion tebyg yn y dyfodol yn cael eu hatal i bobl ifainc â phrofiad o ofal sy'n ddigartref.
- Rhoi statws 'cysylltiad lleol' i bobl ifainc sydd â phrofiad o ofal sy'n cael eu lleoli y tu fas i'r sir wrth iddyn nhw symud.
- Estyn darpariaeth cymorth gan Gyngorydd Personol hyd at 25 oed.

Adlewyrchu dull rhianta corfforaethol mwy cydgyssylltiedig trwy gydweithio a chomisiynu corfforaethol yn y dyfodol i atal digartrefedd yn y dyfodol.

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref, a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

Mae rhagor o atgyfeiriadau yn methu â chael eu derbyn gan wasanaethau lloches yn RhCT oherwydd lefelau angen/risg – mae hyn yn bennaf oherwydd heriau sy'n cael eu hwynebu ar yr un pryd, megis hanes o drawma, camddefnyddio sylweddau a heriau iechyd meddwl.

Er bod dim llawer o geisiadau digartrefedd ar gyfer y rhai sy'n ffoi rhag cam-drin yn y cartref, maen nhw'n fwy cymhleth ac mae angen datblygu gwasanaethau yn enwedig o ran gwella rhaglenni cam-drin yn y cartref sy'n gweithio gyda chyflawnwyr cam-drin.

Lleddfu Digartrefedd a Chynnig Llety Addas

Mae gyda ni ddyletswydd statudol i leddfu digartrefedd yn ogystal â'i atal. Mae ein gallu i fodloni'n dyletswyddau'n cael ei herio ar hyn o bryd gan y cynnydd yn nifer y bobl sydd ag anghenion cymhleth o ran camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd. Dyw'r opsiynau llety a chymorth sydd ar gael ar hyn o bryd ddim wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion y grŵp yma. Mae hyn yn arwain at bobl yn cael eu lletya yn y llety anghywir ac mae modd iddo arwain atyn nhw'n cael eu hallgáu ymhellach. A bod yn fanwl, tynnodd yr asesiad anghenion sylw at yr angen i gael y canlynol:

- Opsiynau hyblyg a lled-barhaol (lle bo angen) ar gyfer pobl sydd wedi'u hallgáu sawl gwaith sydd â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau cronig a chymhleth.
- Rhagor o opsiynau sy'n sicrhau bod pobl ifainc 16–25 oed, ac yn enwedig pobl ifainc sydd â 'phrofiad o ofal', yn cael eu rhoi mewn llety sy'n briodol i'w hoedran.
- Rhagor o opsiynau i sicrhau fod menywod sy'n cael llety trwy lwybr troseddwr, sydd yn aml â hanes o wynebu trais yn y cartref, ddim yn cael eu gosod trwy ddamwain ochr yn ochr â dynion sydd â hanes o gyflawni trais yn y cartref.

Mae helpu pobl i fyw'n annibynnol yn y gymuned yn hanfodol i'r Rhaglen Cymorth Tai. Mae hyn yn cynnwys creu mynediad at lety ac asesu a dylanwadu ar gyflenwad a llety addas ym mhob cymuned yn y Sir.

Mae'r cynllun Tai yn Gyntaf wedi'i roi ar waith yn RhCT i roi cymorth i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth, yn enwedig cyn-droseddwr a phobl ifainc. Mae'r gwasanaethau'n darparu llety a chymorth sy'n addas ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth trwy ddefnyddio dulliau allgymorth cadarn ac ymateb yn gyflym. Mae Ailgartrefu Cyflym yn rhan hanfodol o bolisi Llywodraeth Cymru ac mae cynllun Tai yn Gyntaf RhCT yn rhoi sylfaen gadarn i symud ymlaen. Mae rhanddeiliaid am weld Tai yn Gyntaf yn cael ei ymestyn i bobl ag anghenion mwy cymhleth ac rydyn ni wedi ymrwymo i archwilio hyn.

Pobl Sengl

Mae'r asesiad anghenion yn dangos bod aelwydydd un person yn gyson yn cyfri tuag at y mwyafrif o achosion lle mae'r Cyngor wedi rhoi cymorth i'r rhai sy'n ddiartref neu dan fygythiad o ddiartrefedd. Ymgeiswyr gwrywaidd sengl yw'r gyfran fwyaf o geisiadau sy'n cael eu gwneud gan y rhai sydd wedi bod yn ddiartref yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae cyfran yr ymgeiswyr gwrywaidd sengl wedi codi o 46% o'r cyfanswm yn 2017 i 58% yn 2021.

Mae ymgeiswyr gwrywaidd sengl yn cyfri am ragor o leoliadau mewn llety dros dro na'r holl fathau eraill o aelwydydd gyda'i gilydd, gydag ymgeiswyr benywaidd sengl yn cyfri am yr ail nifer uchaf o leoliadau.

Roedd 40% o'r bobl a gafodd eu rhoi mewn llety dros dro wedi'u lleoli sawl gwaith, gan adlewyrchu cymhlethdod cynyddol eu hanghenion ac mae nifer y bobl sydd angen llety dros dro wedi cynyddu'n sylweddol.

Llety gwely a brecwast preifat yw'r llety dros dro yn bennaf. Yn 2020/21 rhoddwyd 524 o unigolion, teuluoedd a grwpiau mewn llety dros dro (ar ddiwedd mis Mawrth). Cafodd 40% o'r 524 eu gosod mewn llety dros dro sawl gwaith, gan arwain at gyfanswm o 852 o leoliadau yn 2020/2021.

Mae angen dybryd i leihau'r ddibyniaeth ar lety gwely a brecwast a datblygu llety dros dro a llety â chymorth newydd sy'n addas ar gyfer arosiadau hirach. Ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid, roedd galw am well hygyrchedd i bawb, o'r rheiny sydd ag anghenion isel i rai cymhleth, a hyn trwy ddull un

canolfan asesu gyda syniadaeth 'dim drws anghywir'.

Mae'n bosibl y bydd un dull asesu, gydag asesiad amlddisgyblaethol o angen pobl sengl ddigartref, yn helpu i leihau achosion o ddigartrefedd dro ar ôl tro drwy gydnabod ac ymateb i gymhlethdod heriau pobl ddigartref.

Y Sector Rhentu Preifat

Mae'r Asesiad Anghenion yn amlygu diffyg llety i bobl symud i lety â chymorth neu lety dros dro, neu symud ymlaen ohono. Rhan allweddol o'r farchnad llety i symud ymlaen yw'r Sector Rhentu Preifat. Ers y pandemig a'r cynnydd yng ngwerth tai ac mewn rhenti yn RhCT, does dim llawer o landlordiaid preifat bellach eisiau gweithio gyda chleientiaid sydd wedi'u hatgyfeirio gan y Cyngor, gan fod yn well ganddyn nhw ddod o hyd i denantiaid preifat.

Rydyn ni wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i sefydlu'r Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol. Mae'r asiantaeth yn gwella mynediad i'r sector rhentu preifat, ond mae ei heffaith yn arafach na'r disgwyl oherwydd yr heriau presennol o ran ymgysylltu â landlordiaid preifat. Mae angen parhau i weithio i ymgysylltu â landlordiaid preifat a datblygu'r farchnad yma ar gyfer pobl sengl.

Cynllunio ac adeiladu

Mae gyda ni argyfwng tai. Mae angen cynllunio ac adeiladu cartrefi newydd ar frys, yn enwedig llety un ystafell wely. Mae angen i'r cynlluniau datblygu yma fynd i'r afael â brys y prinder tai, yn ogystal â pharchu anghenion ac unigrywiaeth y cymunedau lleol.

Mae pobl ag anawsterau corfforol yn aml yn gwneud ceisiadau i ailgartrefu o'r ysbyty, yn aml ar fyr rybudd. Yn y sefyllfaoedd yma, mae angen rhagor o ddata a sylw ar y Cyngor ar bwynt cynharach. Mae angen dod o hyd i ragor o atebion tymor byr tra bod addasu neu adeiladu llety yn symud ymlaen. Mae dau eiddo yn eu lle i'r diben yma ac mae'r Cyngor hefyd yn edrych ar y defnydd ar gyfer Seibiant Gofal Ychwanegol. Mae angen ymagwedd strategol, aml-asiantaeth at dai creadigol newydd a dewisiadau cymorth.

Llety â Chymorth a Chymorth fel y bo angen

Ar ôl bod yn gyson i raddau helaeth am nifer o flynyddoedd, cynyddodd lefelau atgyfeirio ar gyfer cymorth cysylltiedig â thai yn sylweddol yn 2019/20, gydag amrywiaeth o anghenion yn dod i'r amlwg:

- Iechyd Meddwl
- Bod yn ddigartref neu eisiau atal bod yn ddigartref
- Pobl hŷn sy'n agored i niwed
- Anabledd corfforol
- Cam-drin yn y cartref
- Teulu sy'n agored i niwed

Parhaodd y duedd yma yn 2020/21 ar gyfer y rhai oedd yn ddigartref, lle roedd angen atal digartrefedd a theuluoedd sy'n agored i niwed, ond ar gyfer yr holl anghenion eraill roedd atgyfeiriadau'n is o lawer. Mae modd rhoi bai'n rhesymol ar aflonyddwch y pandemig, gyda'r angen i ymateb â chyllid ychwanegol i fynd i'r afael â digartrefedd a chau ysgolion yn arwain at angen cymorth ychwanegol ar deuluoedd.

Cododd rhanddeiliaid bryderon ynghylch sut mae'r pandemig wedi achosi'r angen i 'gynilo' cymorth yn ystod y cyfyngiadau symud ac maen nhw'n disgwyl cynnydd sylweddol yn y galw ar gyfer 2021/22 a thu hwnt. Roedden nhw hefyd yn tynnu sylw at y lefelau uwch o angen a risg y maen nhw bellach yn delio â nhw, a bod angen opsiynau byw parhaol ar rai pobl mewn amgylchedd tai â chymorth. Roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod angen i ymatebion cymorth materion tai fod yn gynt i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth a'r rheiny sy'n anodd ymgysylltu â nhw.

Mae'r Fframwaith Deilliannau Cenedlaethol presennol, sy'n cael ei ddefnyddio i fesur deilliannau'r cymorth a ddarperir, yn rhoi gwybodaeth ar gynnydd pobl ond dyw e ddim tynnu sylw digon i'r hyn sydd wedi bod yn effeithiol o ran y cymorth sydd wedi'i roi i gyflawni'r deilliannau hynny. Bydd gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ar hyn o bryd i gyflwyno Fframwaith Deilliannau Sengl, a gafodd ei ohirio gan y pandemig, yn helpu pob gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn wrth symud ymlaen.

Mae arian Grant Cymorth Tai yn cael ei ddefnyddio yn rhan o'r dull integredig o weithio yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant. Serch hynny, does dim digon o ddata ar ddeilliannau cymorth o Lety â Chymorth i bobl ifainc ddeall eu heffeithiolrwydd. Mae trefniadau yn eu lle gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant i ddechrau datblygu a monitro effeithiolrwydd yr opsiwn yma o ran tai i bobl ifainc sy'n gadael gofal.

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion hefyd yn defnyddio cyllid Grant Cymorth Tai ar gyfer Anabledd Corfforol, Anabledd Dysgu a Lleoliadau Iechyd Meddwl Arbenigol. Does dim digon o ddata ar y deilliannau cymorth sy'n ymwneud â thai gan y gwasanaethau yma i allu dod i gasgliadau ar eu heffeithiolrwydd.

Mae angen gwaith i werthuso effeithiolrwydd gwasanaethau sy'n cael eu hariannu gan y Grant Cymorth Tai yng ngoleuni anghenion a risgiau cynyddol, er mwyn bodloni gofynion y sefyllfa'n well yn dilyn y pandemig.

Gweithio amlasiantaeth

Mae yna lawer o bobl sydd angen cymorth tai sydd â heriau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau a'r angen am gydweithio ar draws y GIG, yr awdurdod lleol a sectorau eraill i ddarparu cymorth cyfannol priodol. Mae'r heriau cyson a brofwyd wrth sicrhau hyn wedi'u hamlygu gan randdeiliaid.

Soniodd rhanddeiliaid yn aml am yr heriau o ran cael cymorth gan gydweithwyr yn y GIG a'r Gwasanaeth Prawf. Amlygon nhw'r angen brys am gael gwell ymateb gweithredol amlasiantaeth i gynhwysiant gyda'r nod penodol o gytuno ar gonsensws ar sut i weithio ar y cyd â phobl ddigartref ag anghenion cymhleth neu unigolion sydd mewn perygl o golli eu llety.

Roedd e'n amlwg o'r broses Asesu Anghenion bod gweithio amlasiantaethol effeithiol ar lefelau rhanbarthol, strategol a gweithredol yn hanfodol i ddarparu'r cymorth integredig cywir.

Mae angen gwaith sylweddol i ddatblygu arferion gweithio ar y cyd ar bob lefel a gyda holl wasanaethau ategol RhCT.

Casgliad

Mae'r ystod o ganfyddiadau yn yr Asesiad Anghenion yn rhoi negeseuon clir ar gyfer cyfeiriad ein Strategaeth Dai a gwasanaethau a ariennir gan y Grant Cymorth Tai yn y dyfodol. Mae'r blaenoriaethau strategol canlynol yn adlewyrchu'r negeseuon yma ac yn dangos sut y bydd y Cyngor a'n partneriaid yn cydweithio i gyflawni ein gweledigaeth gyfunol.

6 Blaenoriaethau Strategol

Mae ein blaenoriaethau ni o ran darparu Rhaglen Cymorth Tai a gwasanaethau Atal a Lleddfu Digartrefedd wedi'u llywio gan yr asesiad o anghenion a gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid. Maen nhw hefyd wedi cael eu llywio gan ofynion polisi ehangach cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, megis y newid i ailgartrefu cyflym a'r hyn rydyn ni wedi ei ddysgu o'r pandemig COVID-19.

Mae ein blaenoriaethau ni hefyd yn ystyried yr Adolygiad Cyflym o Ddigartrefedd a gafodd ei gynnal yn ystod pandemig COVID-19 yn 2020 ac rydyn ni wedi cynnwys camau gweithredu a ddeilliodd o'r adolygiad yn ein cynllun strategol. Mae'r Asesiad Anghenion Iechyd a gafodd ei gynnal gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn 2020 hefyd yn ddylanwad pwysig ar ein cynlluniau ni. Yn benodol, mae ein dull partneriaeth o ehangu mynediad at ofal iechyd a gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yn flaenoriaeth uchel ar gyfer y strategaeth hon.

Mae'r gwaith dadansoddi data lleol ar ddigartrefedd, cyflawniad y gwasanaethau presennol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi rhoi'r modd i ni sefydlu tair blaenoriaeth strategol ar gyfer ein strategaeth ddigartrefedd, a chyfres o feysydd rydyn ni'n dymuno gweithredu arnyn nhw dros y pedair blynedd nesaf i gryfhau ein dull o atal a lleddfu digartrefedd.

Blaenoriaeth 1: Cryfhau dulliau ymyrryd ac atal cynnar a chymorth arbenigol i atal digartrefedd

Mae hyn yn bwysig i sicrhau bod cymorth cyfannol, cofleidiol ar gael i unigolion a bod anghenion arbenigol a'r rhai sy'n deillio o'r pandemig yn cael sylw effeithiol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod dyletswyddau ynghylch atal wedi'i dargedu a gafodd eu cyflwyno gan Ddeddf Tai (Cymru) yn cael eu bodloni'n llawn.

Mae'r gwasanaethau Cymorth Tai yn bodoli i helpu i atal digartrefedd, allgáu cymdeithasol, arwahanrwydd a sefydliadu. Mae atal yn fusnes craidd i wasanaethau digartrefedd ac mae dychwelyd i fusnes fel arfer yn hanfodol i'n dull gweithredu ni. Bydd ffocws ar atal digartrefedd a gwella cyflawniad i lefelau uwch nag yr oedden nhw cyn y pandemig. Mae gyda ni hanes cryf o atal digartrefedd – gwnaeth nifer yr aelwydydd sy'n cael cymorth atal wnaeth fynd yn ddigartref haneru rhwng 2015 a 2017, ac mae'r ffigurau wedi parhau i fod yn gyson isel ers hynny.

Mae ein carfan Materion Tai yn hollbwysig o ran atal digartrefedd, wrth iddi chwilio am ddewisiadau llety sy'n diwallu anghenion pobl. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, datblygu'r Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol sydd wedi ceisio meithrin perthynas â landlordiaid rhentu preifat er mwyn sicrhau bod

eiddo ar gael i'r rhai sydd angen tai. Rydyn ni hefyd wedi comisiynu lleoliadau ar gyfer pobl ifainc mewn cartrefi preifat i leddfu'r angen am dai ac mae gyda ni strategaeth ar gyfer defnyddio tai preifat sy'n cael eu tanfeddiannu.

Mae'r modd yma o fynd i'r afael â materion tai, ynghyd â chymorth parhaus sy'n cael ei ddarparu i bobl drwy wasanaethau cymorth fel y bo angen, yn hanfodol i'n dull ataliol ni.

Bydd ein meddylfryd 'un RhCT' yn sail i'n dull atal, yn enwedig o ran plant a phobl ifainc sydd â phrofiad o ofal. Bydd dull rhianta corfforaethol wedi'i adnewyddu sy'n amlinellu'n benodol sut y byddwn ni'n cynllunio ar gyfer anghenion llety pobl ifainc sydd â phrofiad o ofal yn y dyfodol yn cael ei roi ar waith. I ategu'r dull bydd cynllun dysgu a datblygu sy'n sicrhau ei fod e'n cael ei ddeall ar lefelau strategol ac ymarferol yn y Cyngor ac ymysg ei bartneriaid strategol.

Rydyn ni'n bwriadu atgyfnerthu ein hymateb corfforaethol cadarnhaol i anghenion pobl ifainc sydd â phrofiad o ofal wrth wneud y canlynol:

- Comisiynu
- Gweithio ar y cyd (yn enwedig rhwng y gwasanaethau cymdeithasol, materion tai, ac addysg)
- Darogan angen yn y dyfodol

Bwriad ymyrryd yn gynnar ac yn amserol yw lleihau cynnydd gormodol er mwyn osgoi sefyllfa lle mae argyfwng, gydag effaith ar iechyd, cynhwysiant ac annibyniaeth o ganlyniad. Byddwn ni'n canolbwyntio ar y meysydd canlynol i gryfhau ein dull atal:

- a) Sicrhau bod dull atal corfforaethol di-dor.
- b) Rhannu data'n well rhwng gwasanaethau Iechyd, gwasanaethau Materion Tai, y Gwasanaeth Prawf a darparwyr cymorth, gan gynnwys defnyddio data ar gyfer cynllunio gwasanaethau.

Blaenoriaeth 2: Sicrhau bod pobl sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd yn cael mynediad i'r cartref iawn ar yr amser iawn ac yn y lle iawn, yn rhan o'n dull Ailgartrefu Cyflym

Mae'r modd i helpu pobl i fyw'n annibynnol yn y gymuned yn sylfaenol i'r Rhaglen Cymorth Tai. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig mynediad ond hefyd asesu a dylanwadu ar gyflenwad llety addas. Mae galw arbennig o uchel yn RhCT am gyflenwad tai, yn enwedig cartrefi ystafell wely sengl. Mae hyn yn cynnwys marchnad rhentu preifat arbennig o gystadleuol. Ein nod ni yw adeiladu ar lwyddiannau ein cynllun Tai yn Gyntaf ar gyfer Ailgartrefu Cyflym a chreu dull newydd o roi cymorth i bobl i ddod o

hyd i'r llety iawn gyda'r cymorth iawn o'r cychwyn cyntaf. Mae gwasanaeth Un Pwynt Mynediad a'r dull 'dim drws anghywir' rydyn ni'n bwriadu'i fabwysiadu yn hanfodol i'r ffordd y byddwn ni'n rhoi cymorth i bobl sy'n dod aton ni am gymorth yn y dyfodol. Byddwn ni'n gwneud hyn trwy wneud y canlynol:

- a) Gwella rhagor ar lwyddiannau'r cynllun Tai yn Gyntaf ar gyfer Ailgartrefu Cyflym.
- b) Astudio sut y mae modd ail-lunio a chomisiynu'r farchnad llety â chymorth yn y dyfodol i ymateb i'r lefel gynyddol o achosion cymhleth trwy ddull amlasiantaeth y byddwn ni'n cytuno arno i dargedu a rheoli risg.
- c) Gwella hygyrchedd ac asesu ar gyfer pobl sengl ddigartref, lleihau dibyniaeth ar ddefnyddio llety gwely a brecwast ac ystyried opsiynau i wneud llety dros dro yn fwy cynaliadwy ac addas ar gyfer aros am gyfnodau hirach.
- d) Gwella mynediad i lety yn y sector rhentu preifat drwy'r Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol.
- e) Sicrhau bod cartrefi newydd yn cael eu hadeiladu i helpu pobl i symud ymlaen o lety dros dro ac adolygu gofynion gosod lleol.

Blaenoriaeth 3: Rhoi cymorth o ansawdd uchel i bobl sy'n ddigartref neu sydd o bosibl yn mynd i ddod yn ddigartref, gan ddefnyddio'r dechnoleg sydd ar gael i'r eithaf a sicrhau cydweithio effeithiol rhwng gwahanol asiantaethau

Rydyn ni'n gwybod bod prydlondeb ac addasrwydd cymorth yn bethau mae defnyddwyr ein gwasanaeth ni'n dibynnu arny'n nhw. Byddwn ni'n parhau i dorri tir newydd gyda'r hyn rydyn ni'n ei gynnig wrth i ni ddod i wybod mwy am anghenion defnyddwyr, ac wrth i dechnolegau newydd ddatgloi'r modd i roi cymorth i bobl mewn ffyrdd newydd ac ymatebol. Byddwn ni'n datblygu ar sail y cynllun cymorth presennol sy'n darparu cymorth i bobl ag anghenion cymorth uchel, canolig ac isel. Bydd hyn yn cynnwys:

- a) Gwella prosesau amlasiantaeth ar gyfer pobl gyda nifer o anghenion cymorth cymhleth.
- b) Adolygu sut y mae modd defnyddio technoleg i roi cymorth i bobl a gweithredu ar sail awgrymiadau.
- c) Ehangu cymorth i bobl â heriau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau o'r system ehangach; gweithio ar y cyd â phartneriaid i ddatblygu ac adolygu'r ymateb amlasiantaeth i broblemau sy'n cyd-ddigwydd ymhellach.
- d) Llunio opsiynau llety a chymorth mwy arloesol ar gyfer dioddefwyr a'r sawl sy'n cyflawni troseddau cam-drin yn y cartref.

Blaenoriaeth Strategol 4: Cydweithio i roi cymorth cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gydag ymyriadau arbenigol effeithiol pan fo angen

Rydyn ni'n gwybod bod natur gymhleth ac amlochrog digartrefedd yn galw am ymateb wedi'i gydgysylltu'n well rhwng yr holl bartneriaid statudol a thrydydd sector perthnasol. Rydyn ni wedi cynnwys camau gweithredu penodol a fydd, yn ein barn ni, yn gwella ymatebion amlasiantaeth a gweithrediad y system.

7 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Cafodd rhanddeiliaid eu cynnwys yn y broses o lunio'r blaenoriaethau ar gyfer y strategaeth yma trwy gyfres o weithdai ar-lein, cyfweiliadau un i un a thrwy holiaduron, gan gynnwys holiadur i ddefnyddwyr gwasanaeth. Roedd hyn yn elfen allweddol o'r asesiad anghenion. Dyma'r grwpiau wnaeth ymgysylltu:

<ul style="list-style-type: none">• Defnyddwyr Gwasanaeth• Y Garfan Grantiau Cymorth Tai• Carfanau Materion Tai a Digartrefedd• Gofal Cymdeithasol i Oedolion• Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC)	<ul style="list-style-type: none">• Gwasanaethau i Blant• Darparwyr Grantiau Cymorth Tai• GIG• Y Gwasanaeth Prawf
---	--

Isod mae'r prif themâu sydd wedi dod i'r amlwg diolch i'r rhanddeiliaid, ac maen nhw wedi dylanwadu ar y blaenoriaethau strategol ac wedi'u hymgorffori yn y Cynllun Gweithredu yn [Atodiad A](#).

- Gwellu hygyrchedd i bawb o'r rhai ag anghenion isel i rai cymhleth, gyda dull un drws/canolfan asesu a dull 'dim drws anghywir'.
- Gwellu rhyngweithio amlasiantaeth, yn enwedig o ran iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau ac achosion lle mae'r rhain yn cyd-ddigwydd.
- Sicrhau gwell ymateb gweithredol amlasiantaeth i gynhwysiant, gyda'r nod o gytuno ar gonsensws ar sut i gydweithio ag unigolion digartref â phroblemau cymhleth neu unigolion sydd mewn perygl o golli eu llety.
- Estyn y cynllun Tai yn Gyntaf i ragor o bobl ag anghenion cymhleth.
- Cydnabod bod angen opsiynau byw parhaol ar bobl mewn amgylchedd tai â chymorth.
- Mae angen i ymatebion Cymorth Materion Tai fod yn gyflym i'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth a'r rheiny mae'n anodd ymgysylltu â nhw – mae angen rhoi cymorth i bobl pan fydd ei angen arnyn nhw.
- Adolygu'r defnydd o lety gwely a brechwast ac ystyried dewisiadau eraill o ran llety dros dro, megis gwelyau dros dro ynghlwm wrth ganolfan asesu newydd.
- Sicrhau bod mentrau atal ac ymyrryd yn gynnar wedi'u gwneud yn gydnaws yn strategol ac yn weithredol e.e. rheoli gwybodaeth a phroffilio effeithiol yn y gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth.
- Dylai ymyrryd gyda Grant Cymorth Tai ddechrau cyn gynted â phosibl, yn ogystal â bod yn seiliedig ar leoliad a thargeddu ardaloedd risg uchel.

- Sicrhau bod Grantiau Cymorth Tai a Gwasanaethau i Blant yn defnyddio cyllid ar gyfer Llety â Chymorth yn effeithiol ac yn deall y deilliannau i bobl ifainc.
- Dylen ni adolygu gweithdrefnau diogelu ar gyfer pobl ddigartref i sicrhau eu bod nhw'n ddigon cadarn.

8 Asesiadau Effaith

Rydyn ni wedi cynnal asesiad effaith ar y blaenoriaethau a'r camau gweithredu rydyn ni wedi'u hamlinellu yn y strategaeth yma. Mae ein hasesiad effaith yn cynnwys y canlynol:

- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg
- Hawliau plant

Nodweddion Gwarchoddedig

Nododd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb y bydd ein blaenoriaethau strategol yn cael effaith gadarnhaol ar bobl sydd wedi'u nodi fel rhai gyda nodweddion gwarchoddedig. Mae'r Awdurdod Lleol yn comisiynu gwasanaethau'n benodol ar gyfer **pobl hŷn** gydag anghenion cymorth tai sy'n gysylltiedig â mynd yn hŷn, yn ogystal â gwasanaethau ar gyfer **pobl ifainc** sydd mewn perygl o ddiartrefedd neu sy'n dioddef o ddiartrefedd. Yn yr un modd, mae'n comisiynu gwasanaethau i bobl ag anableddau a/neu gyflyrau hirdymor, i gyd gyda'r nod sylfaenol o gynnal tenantiaeth ac atal diartrefedd.

Mae'r awdurdod yn nodi'r tai a'r cymorth tai penodol sydd eu hangen ar bobl sy'n nodi eu bod nhw'n arddel hunaniaeth **LHDTC+** yn y strategaeth a'r cynllun gweithredu yma.

Mae yna wasanaethau ar gyfer categorïau penodol, megis **beichiogrwydd a mamolaeth**, sydd ddim yn cael eu comisiynu gan yr Awdurdod Lleol ar hyn o bryd ar gyfer y nodwedd warchoddedig yma'n benodol. Fodd bynnag mae carfan Materion Tai a chynnig llety'r Cyngor yn rhoi cymorth cyffredinol i unrhyw unigolyn sydd angen cyngor a chymorth tai, beth bynnag fo'u nodweddion gwarchoddedig.

Y Gymraeg

Mae'r Cyngor yn rhoi **cyfleoedd i bobl ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg**, ddim yn trin y Gymraeg yn **llai ffafriol na'r Saesneg**, yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, ac yn cydgysylltu strategaethau Cymraeg mewnol ac allanol. Ar hyn o bryd, dydyn ni ddim yn comisiynu gwasanaethau sydd wedi'u hanelu'n benodol at y nodwedd warchoddedig yma. Fodd bynnag, mae cyngor, cymorth a chefnogaeth ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg fel cynnig gweithredol.

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Mae gwasanaethau Materion Tai a Chymorth Tai'r Cyngor yn mynd i'r afael ag anghenion cymorth y

plant a'r oedolion mwyaf **agored i niwed** yn y fwrdeistref. Bydd y blaenoriaethau strategol yn ategu amcan cyffredinol y Cyngor, sef bod **pob plentyn a pherson ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i ddysgu'n llwyddiannus a bod yn unigolion hyderus**. Mae'r blaenoriaethau strategol wedi'u paratoi i sicrhau bod gyda'r holl wasanaethau'r hyn sydd ei angen arnyn nhw i roi cymorth i'r rhai sydd mewn perygl neu sydd eisoes yn dioddef o ddigartrefedd.

Mae ein hymrwymiad yn y strategaeth yma i gryfhau ein dull rhianta corfforaethol o ran anghenion yn y dyfodol i gael llety i bobl ifainc â phrofiad o ofal yn mynd cam ymhellach i amddiffyn hawliau'r plant a'r bobl ifainc rydyn ni'n gyfrifol amdany'n nhw.

9 Gweithredu, Monitro ac Adolygu'r Strategaeth

Mae gyda'r Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru'r hyn i'w ddweud yn ei adroddiad *Tackling Homelessness, A Rapid Evidence Review 2015*:

"Mae'r dystiolaeth yn dangos bod digartrefedd yn broblem gymhleth. Yn aml, mae yna lu o resymau sy'n rhyngweithio â'i gilydd mewn ffyrdd sy'n amrywio ar lefel unigol ac yn galw am ymgysylltiad â nifer o feysydd polisi."

Mae'r rhesymau sylfaenol sy'n arwain at ddigartrefedd ac/neu anghenion cymorth tai ymhlith unigolion ac aelwydydd bregus yn gwbl gydgyssylltiedig. Mae gweithredu'r strategaeth yma'n llwyddiannus yn dibynnu'n sylfaenol nid yn unig ar yr hyn y mae modd i'r Cyngor ei wneud, ond ar ein hymdrechion ni i gydgyssylltu gwasanaethau, cynllunio ar y cyd, comisiynu a darparu gwasanaethau gan adrannau mewnol yr awdurdod lleol, partneriaid statudol a'r sector tai.

Byddwn ni'n monitro, yn llywio ac yn adolygu cynnydd yn unol â Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai trwy Grŵp Cynllunio Rhaglen Cymorth Tai RhCT. Mae'r grŵp yn ymgynnull bob chwarter. Y Cadeirydd sy'n atebol yn y pen draw am gyflawni'r strategaeth a chaiff y cyfrifoldeb am ei chyflawni ei ddirprwyo i Swyddog Arweiniol y Rhaglen Cymorth Tai. Bydd cyflawni yn unol â'r strategaeth yn eitem sefydlog ar agenda pob un o'r cyfarfodydd chwarterol yma. Bydd adolygiad ffurfiol o gynnydd a gwerthusiad o'r effaith yn cael eu cynnal bob dwy flynedd o leiaf, ond mae modd eu hadolygu'n amlach os oes angen. Un o'r meysydd allweddol y bydd y grŵp yn canolbwyntio arno fydd gwella'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu am ddeilliannau yn yr holl feysydd sy'n derbyn ein buddsoddiad ni drwy'r Grant Cymorth Tai i roi cymorth i oedolion, plant a phobl ag anabledau dysgu a rhai corfforol.

Cafodd cysylltiadau cryf eu ffurfio â grwpiau a phartneriaethau strategol ledled Cwm Taf Morgannwg trwy'r trefniadau llywodraethu blaenorol ar gyfer rhoi Cymorth i Bobl, ac maen nhw wedi'u cryfhau rhagor drwy sefydlu'r Grŵp Cymorth Cydweithredol Tai Rhanbarthol, sy'n cynnal fforwm allweddol ar gyfer cydweithio.

Mae gan y Grŵp Cymorth Cydweithredol Tai Rhanbarthol gynrychiolaeth eang ar draws asiantaethau. Mae defnyddwyr gwasanaethau, darparwyr, rhanddeiliaid ehangach a chomisiynwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn bartneriaid cydradd i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod yn addas i'r diben, yn gynaliadwy, yn gydnerth, ac â'r modd i fodloni'r galw gan y rhai sydd angen eu cyrchu, yn awr ac yn y dyfodol.

Drwy'r mecanweithiau yma, mae modd i ni uwchgyfeirio'r heriau a ddaw yn sgil atal digartrefedd at gyrff sector cyhoeddus eraill os yw'n rhan o'u cyfrifoldeb nhw. Yn benodol, mae modd i ni dynnu sylw at yr asesiad manwl o anghenion iechyd ein poblogaeth ddigartref a gyflawnon ni gyda Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg a dechrau buddsoddi i wella ein hymateb i'r anghenion iechyd hynny, yn enwedig mewn perthynas ag anghenion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.

Mae aelodau'r Grŵp Cymorth Cydweithredol Tai Rhanbarthol hefyd yn cysylltu â'r Rhaglen Cymorth Tai drwy gyrff eraill sydd wedi'u sefydlu, gan gefnogi'r dasg o gynllunio a chyflawni ar lefel fwy penodol neu arbenigol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg
- Bwrdd Cynllunio Ardal De Cymru ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau
- Gwasanaeth Troseddau a Bwrdd Cymunedau Diogelach De Cymru
- Bwrdd Partneriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol De-ddwyrain Cymru (VAWDASV)
- Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg
- Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru
- Cymdeithas Genedlaethol Landlordiaid Preswyl (NRLA)

Mae cyflawni'r meysydd sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Gwaith Rhanbarthol hefyd yn gyfrifoldeb i'r Grŵp Cymorth Cydweithredol Tai Rhanbarthol. Bydd y datganiad rhanbarthol yn eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd y grŵp a chaiff yr wybodaeth ddiweddaraf ei rhoi yn rheolaidd gan yr aelodau ymhob cyfarfod. Cadeirydd a Chydlynnydd Datblygu Rhanbarthol y Grŵp Cymorth Cydweithredol Tai Rhanbarthol sy'n gyfrifol am oruchwylio'r datganiad yma. Bydd y gwaith sydd i'w weithredu trwy'r datganiad yn cael ei nodi mewn cynllun gwaith a fydd yn cael ei oruchwylio gan y Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol. Mae gweithio'n rhanbarthol yn rhoi fforwm i ni gyflawni'r pethau sy'n cael eu gwneud orau ar y lefel honno. Mae modd trefnu'r rhain yn gategoriau fel a ganlyn:

- Datblygu gwasanaethau arbenigol lle nad oes màs critigol ar eu cyfer nhw'n lleol. Mae prosiectau rhanbarthol newydd (2021–2022) yn cynnwys:
 - Sefydlu a lansio carfan arbenigol ar gyfer Materion Tai, Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau
 - Llundio cynllun ymchwilio/cwmpasu i bennu'r angen am Brosiect LHDCT+ yn Rhanbarthol CTM.
 - Llundio cynllun ymchwilio/cwmpasu i bennu'r angen am brosiect Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, yn benodol ar gyfer y rhai sy'n dioddef arferion diwylliannol niweidiol, ochr yn ochr ag anghenion cymorth sy'n ymwneud â thai.
 - Cais gan Rwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru am gymorth drwy Raglen Ariannu

Communities4Change Cymru i ddatblygu mecanweithiau ar gyfer rhannu, dehongli a defnyddio data a'u rhoi ar waith gyda'n holl bartneriaid.

- Datblygu gwasanaethau rhanbarthol lle bo modd eu cyfiawnhau o ran arbedion maint.
- Mae modd cyflawni gwelliannau gyda chydweithrediad.
- Cydweithio â gwasanaethau cyhoeddus eraill i gryfhau'r dasg o gasglu a rhannu data.

Ffynonellau Ariannu

Ynghyd â chyllid craidd i'r Cyngor drwy'r Grant Cynnal Refeniw, mae'r Grant Cymorth Tai yn cynnig elfen allweddol o'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r strategaeth yma. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dyraniad cyllideb ddangosol ar gyfer y Grant Cymorth Tai dros y 3 blynedd ariannol nesaf, sef 2022/23 hyd ddiwedd 2024/25.

Bydd ein blaenoriaethau ar gyfer gwariant y Grant Tai Cymdeithasol hefyd yn ffactor sylfaenol, yn enwedig o ran cynnig rhagor o gartrefi un ystafell wely a rhagor o lety â chymorth.

Mae'r dyraniad dangosol 3 blynedd i'w groesawu'n fawr am ei fod e'n caniatáu i ni ategu ein cynlluniau strategol a'n cynorthwyo ni i wella a darparu gwasanaethau newydd i fynd i'r afael â'r galw cynyddol am wasanaethau Grant Cymorth Tai yn y fwrdeistref. Bydd e hefyd yn rhoi'r cyfle i ni ystyried y gofynion a'r anghenion a gododd yn sgil pandemig COVID-19 a rhoi'r modd i ni barhau â'r dasg o drawsnewid gwasanaethau i ddiwallu anghenion trigolion RhCT, gan ymgorffori ffyrdd newydd a gwahanol o weithio.

Ar ddechrau pandemig y coronafeirws, wrth i'r rheoliadau ar gyfer aros gartref ddod i rym yng Nghymru, cyhoeddodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol £10 miliwn o gyllid ychwanegol i sicrhau fod neb yn cael ei adael heb fynediad at lety. Roedd hyn yn golygu bod modd i bawb ddilyn cyngor iechyd y cyhoedd ar hylendid sylfaenol a golchi dwylo, dilyn y canllawiau cadw pellter cymdeithasol a sicrhau'r modd i hunan-ynysu pe baen nhw'n mynd yn sâl.

Cafodd £20 miliwn o gyllid ychwanegol ei gyhoeddi'r nes ymlaen yn y flwyddyn er mwyn i awdurdodau lleol gynllunio i sicrhau fod angen i neb ddychwelyd i'r stryd, ac i ganolbwyntio ar arloesi, adeiladu ac ailfodelu i drawsnewid y lletyau sydd ar gael ar hyd a lled Cymru.

Bydd ffyrddiau ariannu eraill, megis y Grant Plant a Chymunedau, yn cael eu defnyddio i hwyluso'r gefnogaeth gywir ar gyfer grwpiau targed ac i wneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Byddwn ni'n parhau â'n gwaith cydweithredol gyda'n partneriaid i ddod o hyd i gyfleoedd i gomisiynu ar y cyd ac i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd hynny, yn lleol ac yn rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg, ein Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a gwaith gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ynghyd â'r asiantaethau rydyn ni'n gweithio'n agos â nhw yn rhan o Grŵp Cynllunio Grant Cymorth Tai RhCT.

Atodiad A: Cynllun Gweithredu

A: Cynllun gweithredu

Blaenoriaeth Strategol 1 – Cryfhau'r gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar a'r cymorth arbenigol sy'n cael ei roi i atal digartrefedd

Cam Gweithredu	Gweithgareddau sydd eu hangen i gyflawni'r flaenoriaeth	Amserlenni/Erbyn Pryd	Swyddog Cyfrifol	Deilliannau Bwriadedig
Cam Gweithredu 1 – Datblygu gwaith atal ac ymyrraeth gynnar ar ddigartrefedd	Llunio gweithdai sylfaenol gydag ysgolion, colegau, a theuluoedd a chymunedau penodol i baratoi Plant a Phobl Ifainc ar gyfer tenantiaethau yn y dyfodol – sicrhau cydwedd â gwaith Teuluoedd Cydnerth.			<ul style="list-style-type: none"> Mae'r ystod o wasanaethau atal sy'n cael eu comisiynu yn diwallu anghenion trigolion RhCT ac yn eu hatal nhw rhag gorfod cyrchu gwasanaethau statudol
	Astudio'r potensial ar gyfer Hwb Cyngor Tai i Blant a Phobl Ifainc ar y cyd â'r Gwasanaethau i Blant			<ul style="list-style-type: none"> Gostyngiad mewn digartrefedd ymhlith pobl ifainc trwy lunio

	<p>Gwella'r gwaith marchnata/hyrwyddo cymorth Atal ac Ymyrraeth Gynnar. Gwneud y cymorth yn fwy gweladwy a hygyrch.</p>			<p>pecynnau addysg a rhoi rhagor o wybodaeth iddyn nhw am dai a digartrefedd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mwy o ymwybyddiaeth amlwg ymysg pobl ifainc o'r ffactorau sy'n cyfrannu at broblemau tai a digartrefedd, gydag ymwybyddiaeth o'u hawliau a'u cyfrifoldebau nhw.
	<p>Ymchwilio i gyfleoedd i gydweithio gydag adrannau eraill yn yr awdurdod lleol i dargedu cyfleoedd i ymyrryd yn gynnar.</p>			
	<p>Datblygu perthnasoedd gyda grwpiau cymunedol sydd wedi'u sefydlu a chynnig sesiynau galw heibio rheolaidd i roi Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.</p>			
	<p>Ystyried ymhellach ac, os oes angen, cryfhau ein dyletswyddau rhianta corfforaethol mewn perthynas ag anghenion y dyfodol o ran darparu llety i blant a phobl</p>			

	<p>ifainc sydd wedi 'profi gofal', a hyn mewn ymateb i lythyr diweddar gan Lywodraeth Cymru at holl awdurdodau lleol Cymru.</p>			
	<p>Adolygu cyrsiau tenantiaeth 'Paratoi a Symud Ymlaen' ('GRAMO') ynghyd â chydweithwyr Gofal Cymdeithasol i astudio'u heffeithiolrwydd i bobl ifainc sydd â phrofiad o ofal</p>			<ul style="list-style-type: none"> • Mwy o weithio mewn partneriaeth a gwell mynediad at wasanaethau cymorth tai ac atal digartrefedd trwy feithrin perthnasau â'r gwasanaethau iechyd, y gwasanaeth prawf, y gwasanaethau cymdeithasol a
<p>Cam Gweithredu 2 – Rhoi cymorth ar gyfer iechyd meddwl a chamddefnyddio</p>	<p>Gwella'r gwaith ar y cyd â phartneriaid, gan gynnwys tai, iechyd a Gofal Cymdeithasol i Oedolion er mwyn llunio ymateb amlasiantaeth ar faterion sy'n cyd-ddigwydd ac adolygu darpariaeth y gwasanaeth presennol trwy grŵp gorchwyl a gorffen</p>			<ul style="list-style-type: none"> • Mwy o weithio mewn partneriaeth a gwell mynediad at wasanaethau cymorth tai ac atal digartrefedd trwy feithrin perthnasau â'r gwasanaethau iechyd, y gwasanaeth prawf, y gwasanaethau cymdeithasol a
	<p>Sicrhau trefniadau i weithio'n</p>			

sylweddau – llunio system ehangach o gydweithio ar broblemau sy'n cyd-ddigwydd.	agosach gyda'r Bwrdd Cynllunio Ardal ar Gamddefnyddio Sylweddau i fynd i'r afael â heriau cymhleth neu rai sy'n cyd-ddigwydd			Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC), gan adolygu a datblygu arferion a phrosesau gwaith ar y cyd ag asiantaethau partner allweddol. Bydd y deilliannau'n dangos llai o fethiannau o ran tenantiaeth neu achosion o droi allan o dai cymdeithasol neu letyau â chymorth/ hosteli, yn ogystal â llai o ddigartrefedd a llai o risg yn y gymuned
	Parhau i ddatblygu'r garfan allgymorth arbenigol ranbarthol ar iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Gweithio gyda chydweithwyr rhanbarthol i ystyried y potensial mewn lleoliadau ehangach (hosteli rheng flaen a llety dros dro sydd ar waith ar hyn o bryd)			
	Llunio cynllun ar y cyd ac, yn dilyn hynny, comisiynu gwasanaethau ar gyfer pobl â heriau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau cymhleth sy'n cyd-ddigwydd gyda thai, y Grant Cymorth Tai,			

	y GIG a Gofal Cymdeithasol i Oedolion			
	Gweithio gydag arweinwyr BIPCTM ar iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau i fwrw ymlaen â holl argymhellion yr adolygiad diweddar ar iechyd a digartrefedd o ran heriau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd.			
	Ystyried opsiynau i wneud llety dros dro yn fwy cynaliadwy ac addas ar gyfer aros yn hirach i bobl â heriau cymhleth sy'n cyd-ddigwydd			

	Datblygu strategaeth cydgomisiynu rhwng y Grant Cymorth Tai a'r Gwasanaethau i Blant mewn perthynas ag anghenion plant a phobl ifainc â phrofiad o ofal am lety yn y dyfodol			<ul style="list-style-type: none"> • Ymateb cyflym i ddigwyddiadau neu risgiau unigol yn deillio o ddigartrefedd ymysg pobl ifainc • Gostyngiad yn nifer yr achosion o ddigartrefedd ymysg pobl ifainc
Cam Gweithredu 3 – Rhoi cefnogaeth i bobl ifainc, gan gynnwys dulliau rhianta corfforaethol gwell mewn perthynas â'u hanghenion llety yn y dyfodol	Sicrhau bod y Grant Cymorth Tai a'r Gwasanaethau i Blant yn adolygu effeithiolrwydd a chyllid ar gyfer llety â chymorth ac yn deall y deilliannau i bobl ifainc			
Cam Gweithredu 4 – Cefnogaeth i fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref, a Thrais Rhywiol	Adolygu'r cynllun rhanbarthol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref, a Thrais Rhywiol yng ngoleuni anghenion newydd sy'n dod i'r amlwg ynghylch heriau sy'n cyd-ddigwydd.			

	<p>Ystyried datblygu mwy o lety a chymorth wedi'i dargedu ar gyfer y nifer cynyddol o fenywod ag anghenion mwy cymhleth sy'n ffoi rhag trais</p>			<ul style="list-style-type: none"> Mae gwasanaethau'n fwy ymatebol i anghenion amrywiol pobl sy'n profi Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref, a Thrais Rhywiol
	<p>Sicrhau bod gwasanaethau sydd ar waith eisoes a rhai newydd eu comisiynu yn gymwys i ymdrin â heriau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd</p>			
	<p>Sicrhau bod comisiynu gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref, a Thrais Rhywiol yn ystyried anghenion y gymuned LHDTC+</p>			

	<p>Llunio cynllun llety a chymorth ar y cyd â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC), asiantaethau camddefnyddio sylweddau/iechyd meddwl a'r gwasanaeth prawf, ar gyfer y rheiny sy'n cyflawni troseddau, gan gynnwys ystyried cynllun llety 'cam i lawr' ar gyfer y rheiny sy'n cyflawni trosedd.</p>			
	<p>Cwblhau prosiect ymchwil ar y cyd â chynghorau mewn bwrdeistrefi sirol cyfagos ar anghenion cymorth cysylltiedig â thai menywod sy'n dioddef arferion diwylliannol niweidiol, e.e. o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig gyda'r nod o lunio cynllun cymorth rhanbarthol yn seiliedig ar</p>			

argymhellion yr adroddiad.

Blaenoriaeth Strategol 2 – Sicrhau bod pobl sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd yn cael y cartref iawn ar yr amser iawn ac yn y lle iawn, yn rhan o'n dull Ailgartrefu Cyflym ni

Cam Gweithredu	Gweithgareddau sydd eu hangen i gyflawni'r flaenoriaeth	Amserlenni/Erbyn Pryd	Y Prif Unigolyn/Swyddog	Deilliannau Bwriadedig
Cam Gweithredu 5 – Cynnig llety addas ar gyfer ailgartrefu cyflym ac ymateb i'r 'normal newydd'	Sicrhau bod yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig yn adlewyrchu'r anghenion sydd wedi'u nodi yn yr Asesiad Anghenion Grant Cynnal Tai, yn enwedig cartrefi ystafell wely sengl i gynorthwyo gydag opsiynau symud ymlaen			<ul style="list-style-type: none">• Twf yng nghyflenwad lletyau yn y sector rhentu sy'n fforddiadwy ac o ansawdd da, a chynnydd yn y dewis o dai ar gyfer aelwydydd sy'n wynebu digartrefedd• Gwell asesu a hygyrchedd i bobl sengl
	Cynyddu'r opsiynau Tai yn			

	Gyntaf drwy weithredu argymhellion yr adolygiad Ailgartrefu Cyflym a llunio'r Cynllun Ailgartrefu Cyflym			ddigartref, gan arwain at ddefnydd mwy strategol wedi'i dargedu o lety yn unol ag anghenion cyfannol
	Sicrhau bod opsiynau Tai yn Gyntaf ar wahân yn cael eu datblygu ar gyfer pobl ifainc ac oedolion hŷn			
	Paratoi Llawlyfr Gweithredol Cynlluniau Tai yn Gyntaf cadarn i sicrhau ymagwedd gyson ym mhob cynllun Tai yn Gyntaf, ac i gynnwys adolygiad o'r broses atgyfeirio			
	Cwblhau'r cynnig i adleoli hostel Stryd y Felin a datblygu Canolfan Asesu newydd 22 ystafell wely, 24/7 ar gyfer pobl sengl ddigartref 18 oed a hŷn			
	Cynnwys dewisiadau llety			

	hunangynhwysol tymor byr a chanolig a chymorth i ddiwallu anghenion pobl ar adeg yr asesiad ynghlwm wrth y Ganolfan Asesu newydd			
	Llunio model gwasanaeth cyfannol, amlddisgyblaethol, amlasiantaeth ar gyfer y Ganolfan Asesu			
	Datblygu perthnasoedd proffesiynol gyda landlordiaid preifat i gynyddu cyfleoedd tenantiaeth yn y sector rhentu preifat			
	Datblygu opsiynau ar gyfer cartrefi ychwanegol fydd yn cael eu rhannu i'w defnyddio fel llety dros dro yn y sector rhentu preifat			
	Datblygu opsiynau ar gyfer mathau eraill o lety dros dro			

	gan gynnwys cynlluniau llety â chymorth mwy cyffredinol			
	Adolygu'r polisi dyrannu presennol. Cytuno a gweithredu newidiadau polisi gyda phartneriaid LCC i ategu'r broses o drosglwyddo i'r cynllun Ailgartrefu Cyflym.			
Cam Gweithredu 6 – Adolygu effaith COVID-19 ar y defnydd o letyau dros dro	Lleihau nifer y bobl mewn llety gwely a brechwast			<ul style="list-style-type: none"> Cynllun i leihau'r defnydd o Letyau Gwely a Brechwast a Lletyau Dros Dro anaddas
	Parhau i fapio anghenion cymorth y rhai mewn Llety Gwely a Brechwast/Llety â Chymorth er mwyn cynllunio 'opsionau symud ymlaen' sy'n barhaol ac yn briodol.			
	Cynyddu nifer y lletyau â chymorth i leihau'r defnydd o letyau Gwely a Brechwast, yn enwedig ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth â nifer o			

	anghenion cymhleth – gyda disgwyladau hyblyg o ran symud ymlaen.			
	Adolygu'r defnydd o lety dros dro yn barhaus			
Cam Gweithredu 7 – Cynyddu mynediad i'r Sector Rhentu Preifat	Hwyluso perthnasoedd gwaith agosach gyda landlordiaid preifat ac asiantaethau gosod tai lleol i gydnabod y sefyllfa bresennol o ran tai			<ul style="list-style-type: none"> Cynnydd yn nifer yr aelwydydd digartref sydd wedi atal neu leddfu'u digartrefedd trwy rentu fel tenantiaid yn y sector preifat
	Rhoi'r Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol ar waith yn genedlaethol			
	Hyfforddiant ar 'Baratoi Tenantiaeth' er mwyn i ddarpar denantiaid gael y cyfle gorau i gynnal eu tenantiaethau			
	Gweithio ar eiddo gwag cymaint â phosib gyda'r bwriad o'u defnyddio nhw ar			

	gyfer tai cymdeithasol, naill ai drwy'r sector rhentu preifat neu'r LCC.			
Cam Gweithredu 8 – Sicrhau bod cartrefi newydd yn cael eu hadeiladu i wella'r symudiad o lety dros dro	Sicrhau bod datblygiadau newydd yn bodloni'r angen am dai fel y cafodd ei nodi yn yr Asesiad Anghenion Tai			<ul style="list-style-type: none"> • Cyflenwad cynyddol o letyau fforddiadwy ar gyfer anghenion cyffredinol i'w gosod trwy ein polisi dyrannu cyffredin. • Bydd nifer y cartrefi fforddiadwy sy'n cael eu cwblhau gan ein partneriaid sy'n Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn dangos cynnydd blynyddol am oes y strategaeth yma, gyda chynnydd sylweddol yn nifer y lletyau un ystafell wely
	Sefydlu 'prif' gynllun datblygu iach a chynllun 'wrth gefn' er mwyn osgoi tanwario'r Grant Tai Cymdeithasol a diwallu'r angen am dai.			
	Sicrhau bod trefniadau Adran 106 ar gyfer datblygwyr preifat fel sydd wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Datblygu Lleol yn cyfrannu at nodau'r Strategaeth yma.			

				<ul style="list-style-type: none"> Portffolio llety amrywiol i ddiwallu'r ystod o anghenion, yn ogystal â chynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy
--	--	--	--	--

Blaenoriaeth Strategol 3 – Rhoi cymorth o ansawdd uchel i bobl sy'n ddigartref neu sydd â risg o ddod yn ddigartref, gan ddefnyddio'r dechnoleg sydd ar gael yn llawn a sicrhau gwaith effeithiol rhwng asiantaethau

Cam Gweithredu	Gweithgareddau sydd eu hangen i gyflawni'r flaenoriaeth	Amserlenni/Erbyn Pryd	Y Prif Unigolyn/Swyddog	Deilliannau Bwriadedig
Cam Gweithredu 10 – Llety â Chymorth a Chymorth fel y bo angen – cynnig rhagor o sicrwydd a chysondeb i	Ymrwymo i ddarparu cyllid am dymor hwy yn unol â dyraniad cyllid y Grant Cymorth Tai am 3 blynedd gan Lywodraeth Cymru er mwyn caniatáu gwell cynllunio ac i gadw staff.			<ul style="list-style-type: none"> Lleihad clir mewn biwrocratiaeth ddiangen a thasgau sydd ddim yn ymwneud â chymorth gan ddarparwyr

ddarparwyr, annog hyblygrwydd ac arloesedd, a lleihau gwaith gweinyddol	<p>Rhoi blaenoriaeth pan fo'n briodol i hosteli/llety â chymorth ar gyfer symud ymlaen o lety dros dro – rhoi polisi cam i fyny/cam i lawr ar waith i ategu cynaliadwyedd tenantiaeth.</p> <p>Cynnig hyfforddiant ychwanegol i'r holl staff sy'n cael eu hariannu gan y Grant Cymorth Tai; ymwybyddiaeth o hunanladdiad, hyfforddiant iechyd meddwl, hyfforddiant deddfwriaeth tai</p>			<ul style="list-style-type: none"> Mae cymorth yn cael ei roi mewn amrywiaeth o ffyrdd (e.e. wyneb yn wyneb, rhithwir ac o bell). Mae hyn yn sicrhau bod cymorth yn fwy hygyrch, ymgysylltiol ac amserol, ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau
	<p>Datblygu sgiliau cynhwysiant digidol ym mhob gwasanaeth, yn ogystal â'r bobl rydyn ni'n rhoi cymorth iddyn nhw – cysylltu â Chymunedau Digidol Cymru</p>			<ul style="list-style-type: none"> Mae modd i staff a phobl yn y gymuned ymgysylltu'n ddigidol a

	Adolygu'r modd rydyn ni wedi croesawu technoleg a chynnig gwasanaethau yn wahanol yn ystod pandemig COVID-19.			diwallu'u hanghenion yn rhagweithiol drwy'r dulliau yma
--	---	--	--	---

Blaenoriaeth Strategol 4 – Cydweithio i gynnig cymorth cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gydag ymyraethau arbenigol effeithiol lle bo angen

Cam Gweithredu	Gweithgareddau sydd eu hangen i gyflawni'r flaenoriaeth	Amserlenni/Erbyn Pryd	Y Prif Unigolyn/Swyddog	Deilliannau Bwriadedig
Cam Gweithredu 11 – Gwella ymatebion amlasiantaeth a gwaith system	Sicrhau bod Grŵp Cynllunio'r Grant Cymorth Tai yn llywio ac yn rhoi trosolwg amlasiantaeth ar gyfer strategaeth a champau gweithredu'r Rhaglen Cymorth Tai, gan sicrhau bod gweithdrefn monitro ar waith a bod cysylltiadau'n cael eu			<ul style="list-style-type: none"> Cyfarfodydd rheolaidd parhaus i annog pob asiantaeth i gefnogi gyda materion sy'n effeithio ar ddigartrefedd neu sy'n cael eu heffeithio gan ddigartrefedd.

	cynnal gyda grwpiau a fforymau strategol allweddol			<ul style="list-style-type: none"> • Rhagor o wybodaeth ac ymwybyddiaeth i sicrhau bod gwasanaethau cymorth tai effeithiol ac arloesol yn cael eu comisiynu a'u cyflawni • Rhoi dull cynllunio a chomisiynu amlasiantaeth arloesol newydd ar waith
	Sefydlu fforymau darparwyr Grant Cymorth Tai yn amlach i rannu arfer gorau o bob asiantaeth ac i gael yr wybodaeth ddiweddaraf ar bolisiau a gweithdrefnau'r Grant Cymorth Tai a'r garfan Materion Tai.			
	Llunio hyfforddiant, diweddariadau a briffiau i staff a darparwyr i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y			

	<p>gwasanaeth, arferion da, arloesedd ac arferion newydd trwy sesiynau hyfforddi ar y cyd, Grŵp Cynllunio'r Grant Cymorth Tai, a fforymau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol</p>			
	<p>Nodi trefniadau ariannu ar y cyd â phartneriaid ar gyfer comisiynu a darparu gwasanaethau sydd angen mewnbwn gan y GIG, y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Prawf</p>			

Atodiad B: Tirwedd y Polisiau Cenedlaethol

Wrth iddi esblygu, mae tirwedd y polisiau ar ddigartrefedd wedi cynnwys:

- Cyhoeddi 'Atal Digartrefedd a Hyrwyddo Annibyniaeth' yn 2016 – yn y bôn, llwybr i bobl ifainc ar eu taith tuag at annibyniaeth a llwyddiant economaidd trwy gyngor ar dai, opsiynau ac atal digartrefedd
- Cyflwyniad yn 2016 o'r canllawiau 'Pan Fydda i'n Barod' o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a wnaeth roi'r modd i bobl ifainc mewn gofal maeth aros gyda'u gwarcheidwaid y tu hwnt i 18 oed
- Cyhoeddiad yn 2016 gan Barnardos o'r 'Care Leaver Accommodation and Support Framework' gyda'r nod o gynllunio a chynnig tai a chymorth effeithiol i bobl ifainc a'r rhai sy'n gadael gofal
- Cyflwyniad gan Lywodraeth Cymru ar ddulliau adferol 'Tai yn Gyntaf' gyda'r nod o ddod â digartrefedd i ben trwy ganolbwyntio ar symud pobl ddigartref yn gyflym i dai annibynnol a pharhaol ac yna cynnig cymorth a gwasanaethau ychwanegol iddyn nhw yn ôl yr angen.
- Pwyslais o'r newydd ar ddarparu lletyau dros dro, fel ymateb i bandemig COVID-19, gan arwain at Lywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau cynllunio Cam 2 sy'n gorfodi awdurdodau lleol a'u partneriaid i gynllunio i sicrhau bod pawb mewn llety dros dro yn cael cymorth i feddu ar lety hirdymor. Mae'r pwyslais yn parhau i fod ar atal digartrefedd a'i gadw'n beth prin a byrhoedlog sydd ddim yn ailddigwydd.
- Mae canllawiau cynllunio Cam 3 (2020) yn ategu'r ymdrech i ddylunio a datblygu gwasanaethau cydnerth a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol
- Cyfres o ymgyrchoedd arbennig, gan gynnwys Ymgyrch Dileu Digartrefedd leuenctid Cymru 2018, sy'n canolbwyntio ar anghenion y gymuned LHDT+, yn cefnogi'r rhai â phroblemau iechyd meddwl, ac yn lleihau'r cysylltiadau rhwng digartrefedd, ymddieithrio rhag addysg, a'r system ofal
- Buddsoddiad ychwanegol sylweddol gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig £10 miliwn yn 2019–20, i fynd i'r afael â digartrefedd ymysg pobl ifainc trwy wella'r ddarpariaeth bresennol a datblygu gwasanaethau newydd; a lansio Cronfa Arloesi gwerth £4.8 miliwn yn 2019–20 i gefnogi 26 o brosiectau ledled Cymru i ymdrin â chymorth tai trwy ddulliau newydd ac arloesol
- Adroddiad i Lywodraeth Cymru gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd yn 2020 sy'n cynnig persbectif cyfannol ar bolisiau i ddod â digartrefedd i ben ac ymateb y Llywodraeth ar ffurf dogfen ymgynghori o'r enw '**Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun gweithredu lefel uchel: 2021–2026**', sy'n ychwanegu at ganllawiau cynllunio Cam 2.

- Amod bod awdurdodau lleol yn cwblhau **Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym** erbyn diwedd mis Medi 2022.